
# Darllen a Deall - Y Pasg

**Stori'r Pasg**

Gŵyl Gristnogol yw'r Pasg.

Y Pasg yw un o ddathliadau hynaf y Cristnogion, i ddathlu fod Iesu Grist wedi dod yn ôl yn fyw ar ôl marw.

Mae Dydd Sul y Pasg, sef y diwrnod y daeth Iesu'n ôl yn fyw yn ddiwrnod pwysig iawn yn y flwyddyn Gristnogol gan ei fod yn ein hatgoffa o fywyd newydd.






**Pam fod pobl yn dathlu'r Pasg?**

- Dydd Iau Cablyd- Iesu'n bwyta ei Swper Olaf gyda'i ddisgyblion.
- Dydd Gwener y Groglith- Croeshoeliwyd Iesu a bu farw. Rhoddodd y disgyblion ei gorff yn y bedd a gorchuddio'r fynedfa gyda chraig fawr.
- Dydd Sadwrn – Iesu'n parhau i fod yn y bedd.
- Dydd Sul Pasg- Iesu'n dod yn ôl yn fyw/yn atgyfodi!

Dychwelodd Iesu er mwyn ymweld â'i ffrindiau.

Dywedodd wrthynt am ddysgu pobl am gariad Duw.

"Dywed wrth y bobl i gredu ynof i, hyd yn oed os nad ydynt yn fy ngweld."

Yna aeth Iesu i'r nefoedd i fod gyda Duw.



# Darllen a Deall - Y Pasg

**Pwy sy'n dathlu'r Pasg?**
Caiff y Pasg ei ddathlu gan Gristnogion ar draws y byd.





**Ym mhle mae pobl yn dathlu'r Pasg?**
Mewn Eglwysi ar draws y byd. Mewn rhai eglwysi mae gwasanaethau yn cychwyn am hanner nos ar Noswyl y Pasg. Goleuir canhwyllau er mwyn cychwyn y dathliadau am hanner nos.

Yng ngwlad Groeg ceir arddangosfa tân gwyllt er mwyn cychwyn y dathliadau.

Mae Eglwysi wedi eu llenwi gyda blodau lliwgar – mae hyn yn cynrychioli bywyd newydd.

Mae llawer o Gristnogion yn dathlu'r Pasg yn eu cartrefi eu hunain.

**Sut mae pobl yn dathlu'r Pasg?**

- Mynd i'r Eglwys am wasanaeth.
- Rhoi a derbyn cardiau Pasg.
- Bwyta pryd o fwyd arbennig gyda theulu a ffrindiau.
- Rhoi a derbyn wyau siocled y Pasg, cynnal Helfa Wyau Pasg, addurno wyau. Mae wyau yn symbol o fywyd newydd.
- Bwyta Byns y Grog.

**Gwir ystyr y Pasg**
Dathlu fod Iesu wedi dod yn ôl yn fyw ar ôl cael ei ladd. Gelwir hyn yn atgyfodi.

1. Sut fath o ŵyl yw'r Pasg ? **Ticiwch 1.**

| | |
|---|---|
| Gŵyl Wyau Pasg | |
| Gŵyl Cymru | |
| Gŵyl Gristnogol | |
| Gŵyl Iesu Grist | |

2. Pam mae Dydd Sul y Pasg yn ddiwrnod pwysig iawn? **Ticiwch 2.**

| | |
|---|---|
| Iesu'n ôl yn fyw | |
| Iesu'n disgyn | |
| mae'n ddathliad | |
| bywyd newydd | |
| amser hapus | |

3. **Dewiswch** a **chopïwch un** gair sy'n golygu fod yr Iesu wedi dod yn ôl yn fyw.

______________________________

______________________________

______________________________

4. Ticiwch cywir neu anghywir bob tro. Mae un wedi'i wneud yn barod i chi.

| | Cywir | Anghywir |
|---|---|---|
| Dywedodd yr Iesu wrthynt am ddysgu pobl am gariad Duw. | ✓ | |
| Dydd Sadwrn - Croeshoeliwyd Iesu a bu farw. | | |
| Y Pasg yw un o ddathliadau ieuengaf y Cristnogion. | | |
| Dydd Sul Pasg- Iesu'n dod yn ôl yn fyw/yn atgyfodi! | | |

1. Rhowch y digwyddiadau yn eu trefn o 1–4. Mae un wedi'i wneud yn barod i chi.

| | |
|---|---|
| Mae llawer o Gristnogion yn dathlu'r Pasg yn eu cartrefi eu hunain. | ☐ |
| Mewn rhai eglwysi mae gwasanaethau yn cychwyn am hanner nos ar Noswyl y Pasg. | ☐ |
| Mae Eglwysi wedi eu llenwi gyda blodau lliwgar. | ☐ |
| Goleuir canhwyllau er mwyn cychwyn y dathliadau am hanner nos. | ☐ |

2. Dewiswch y gair/geiriau gorau i gyd-fynd â'r darn darllen drwy roi tic wrth eich dewis bob tro.

**a) Yng ngwlad**

Cymru ☐ Crist ☐ Groeg ☐ Duw ☐

ceir arddangosfa tân gwyllt er mwyn cychwyn y dathliadau.

**b) Dathlu fod Iesu wedi dod yn ôl yn**

fyw ☐ geni ☐ bywyd ☐ saff ☐

ar ôl cael ei ladd. Gelwir hyn yn atgyfodi.

# Atebion

1. Gŵyl Gristnogol
2. Iesu'n ôl yn fyw

   bywyd newydd
3. atgyfodi
4.

| | Cywir | Anghywir |
|---|---|---|
| Dywedodd yr Iesu wrthynt am ddysgu pobl am gariad Duw. | ✓ | |
| Dydd Sadwrn - Croeshoeliwyd Iesu a bu farw. | | ✓ |
| Y Pasg yw un o ddathliadau ieuengaf y Cristnogion. | | ✓ |
| Dydd Sul Pasg- Iesu'n dod yn ôl yn fyw/yn atgyfodi! | ✓ | |

5.

| | |
|---|---|
| Mae llawer o Gristnogion yn dathlu'r Pasg yn eu cartrefi eu hunain. | 4 |
| Mewn rhai eglwysi mae gwasanaethau yn cychwyn am hanner nos ar Noswyl y Pasg. | 1 |
| Mae Eglwysi wedi eu llenwi gyda blodau lliwgar. | 3 |
| Goleuir canhwyllau er mwyn cychwyn y dathliadau am hanner nos. | 2 |

6.

**a) Yng ngwlad**

Cymru ☐ Crist ☐ Groeg ☑ Duw ☐

ceir arddangosfa tân gwyllt er mwyn cychwyn y dathliadau.

**b) Dathlu fod Iesu wedi dod yn ôl yn**

Cymru ☑ Crist ☐ Groeg ☐ Duw ☐

ar ôl cael ei ladd. Gelwir hyn yn atgyfodi.